



Llywodraeth Cymru
Newidiadau i sut y mae asesiadau o'r effaith
amgylcheddol yn berthnasol i gynllunio gwlad a
thref

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y
Llywodraeth

Dyddiad cyhoeddi: Gal 2018

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Cynnwys


1	Cyflwyniad	1
2	Ymatebion	1
3	Ceisiadau sgrinio gan drydydd partïon	2
4	Amserlen ar gyfer cyflwyno cais cwmpasu	3
5	Cydgysylltu	4
6	Ymgynghori a chymryd rhan yn y broses benderfynu	5
7	Monitro effeithiau sylweddol	6
8	Gwrthdaro buddiannau a gwahanu swyddogaethau	7
9	Cosbau a gorfodi	8
10	Arbenigwyr cymwys	10
11	Hysbysiadau prynu o dan adran 141 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref..	12
12	Cwestiynau Cyffredinol	13

1 Cyflwyniad

- 1.1 Cafodd y ddogfen ymgynghori 'Newidiadau arfaethedig i sut y mae asesiadau o'r effaith amgylcheddol yn berthnasol i gynllunio gwlad a thref' (Saesneg yn unig) ei chyhoeddi ar 22 Awst ac roedd modd cyflwyno ymatebion tan 11 Tachwedd 2016. Gofynnwyd cyfanswm o 13 o gwestiynau yn y ddogfen ymgynghori a darparwyd ffurflen safonol er mwyn hwyluso ymatebion.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion hynny.


2 Ymatebion

- 2.1 Daeth cyfanswm o 39 ymateb i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Dyma ddadansoddiad o'r ymatebwyr:



3 Ceisiadau sgrinio gan drydydd partïon

C1. A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer ceisiadau sgrinio gan drydydd partïon? Os nad ydych, pa gynigion y byddech yn eu hargymell er mwyn sicrhau bod ceisiadau sgrinio gan drydydd partïon yn cael eu gwneud yn gynnar yn y broses ymgeisio?




- 3.1 Roedd mwyafrif (74%) y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn o blaid cyfyngu ar geisiadau sgrinio gan drydydd partïon. Roeddent o'r farn y byddai hynny'n eu cymell i gyflwyno ceisiadau sgrinio yn y gynnar yn y broses. Cyhyd ag y bo digon o amser yn cael ei ganiatáu i bartïon ystyried y cais, roedd y cynnig yn rhesymol.
- 3.2 Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid yr egwyddor o gyfyngu ar geisiadau sgrinio gan drydydd partïon ond cyflwynwyd sylwadau hefyd ynghylch sut y byddai ateb deddfwriaethol yn gweithio yn ymarferol. Roeddent o'r farn y byddai angen i unrhyw system fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i drydydd partïon gyflwyno ceisiadau ar ôl y dyddiad cau pe bai gwybodaeth newydd yn dod ar gael. Roeddent o'r farn hefyd, pan fo cais yn cael ei wneud ar ôl y dyddiad cau, y gallai fod yn anodd iawn gwahaniaethu rhwng trydydd parti sydd wir wedi gweld bod risgiau amgylcheddol yn gysylltiedig â datblygiad newydd, a thrydydd parti sydd am lesteirio'r broses gydsynio. Roedd un o'r ymatebwyr yn pryderu y gallai cyflwyno cyfyngiad fod yn groes i gonfensiwn Aarhaus.
- 3.3 Awgrymodd ymatebwyr opsiwn arall yn lle deddfwriaeth. Roeddent o'r farn y gallai fod yn ffordd fwy hyblyg ac effeithiol o fynd i'r afael â'r mater sy'n destun pryder. Gallai'r opsiwn hwnnw, yn eu barn nhw, gynnwys canllawiau am geisiadau o'r fath gan drydydd partïon, a fyddai'n nodi'r mathau o feini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i bwyso a mesur a ddylid derbyn y ceisiadau hynny. Gallai canllawiau o'r fath nodi y byddai gofyn i drydydd parti roi mwy o gyfiawnhad dros gyflwyno cais sgrinio i Lywodraeth Cymru po hwyraf yn y broses gydsynio yr anfonir y cais.

Ymateb

- 3.4 Mae Llywodraeth Cymru am weld ceisiadau sgrinio gan drydydd partiön yn cael eu gwneud yn gynnar yn y broses er mwyn rhoi sicrwydd i bob parti. Mae'r ymatebwyr yn cefnogi'r nod cyffredinol hwn; fodd bynnag, mae ganddynt bryderon oherwydd na fyddai pennu terfyn amser mewn deddfwriaeth yn caniatáu unrhyw hyblygrwydd. Maent yn bryderus hefyd am yr hyn a fyddai'n digwydd ar ôl i'r terfyn amser hwnnw fynd heibio.
- 3.5 Rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar geisiadau sgrinio gan drydydd partiön. Wedi dweud hynny, os bydd ceisiadau i ymyrryd y gellid bod wedi'u cyflwyno'n gynt yn parhau i gael eu gwneud yn hwyr yn y broses, byddwn yn ailystyried cyflwyno atebion deddfwriaethol.

4 Amserlen ar gyfer cyflwyno cais cwmpasu

C2. A ydych yn credu y dylid diwygio'r amserlen sy'n gysylltiedig â chwmpasu? Os ydych, pa amserlen a fyddai'n briodol yn eich barn chi, a pham?




- 4.1 Roedd mwyafrif (74%) y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn yn cytuno y dylid estyn yr amserlen ar gyfer cwmpasu. Ymhlith y rheini a oedd o'r farn y dylid darparu amserlen wahanol, y cytundeb cyffredinol oedd y dylid caniatáu 8 wythnos.
- 4.2 Roedd y rheini nad oeddent o blaid y cynnig o'r farn mai materion eraill, yn bennaf, sy'n achosi oedi, megis yr adnoddau sydd gan yr ymgylgoreion statudol a'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI). Roeddent o'r farn na fyddai caniatáu amser ychwanegol yn arwain at benderfyniadau gwell, dim ond at yr un ymateb, ond yn arafach.

Ymateb

- 4.3 Byddwn yn estyn y cyfnod a ganiateir ar gyfer mabwysiadu barn gwmpasu i wyth wythnos.
- 4.4 Cydnabyddir bod ffactorau eraill yn gallu effeithio ar ba mor gyflym y paratoir adroddiad cwmpasu. Comisiynodd Llywodraeth Cymru hyfforddiant ar gwmpasu mewn perthynas ag Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol er mwyn gwella gallu awdurdodau cynllunio leol a chyrrff llywodraeth eraill.

5 Cydgysylltu

C3.	A ydych yn cytuno â'r cynigion i ddarparu ar gyfer gweithdrefn gydgysylltiedig yn hytrach na gweithdrefn ar y cyd?
C4	Pa fesurau cydgysylltu a fyddai'n fwyaf defnyddiol, a pha fanteision a fyddai'n gysylltiedig â nhw?




- 5.1 Roedd mwyafrif (94%) y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn yn cytuno â chyflwyno gweithdrefn gydgysylltiedig yn hytrach na gweithdrefn ar y cyd. Roedd yr ymatebwyr o'r farn mai dyna fyddai'n cynnig yr hyblygrwydd mwyaf ar gyfer yr asesiadau, ac y byddai'n caniatáu i bob asesiad fodloni'r gofynion deddfwriaethol gwahanol. Yn ôl nifer o'r ymatebwyr, byddai cyfarwyddo drwy deddfwriaeth yn effeithio ar arferion gwaith da sydd yn eu lle eisoes, pa ddull bynnag a fabwysiedir.
- 5.2 O ran y mesurau y byddai modd eu cydgysylltu, roedd pobl yn meddwl y byddai'n fuddiol cydgysylltu'r broses gwmpasu a phynciau penodol yn y Datganiad Amgylcheddol.

Ymateb

- 5.3 Er y nodwyd ychydig o feysydd lle y byddai'n fuddiol cydgysylltu asesiadau, nid oedd unrhyw themâu cyson. Bydd y cyfleoedd cydgysylltu a nodwyd yn cael eu cynnwys mewn canllawiau.

6 Ymgynghori a chymryd rhan yn y broses benderfynu

C5. A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer trefnu bod gwybodaeth ar gael yn electronig?



6.1 Roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn (94%) yn cytuno â'n cynigion ar gyfer trefnu bod gwybodaeth ar gael yn electronig. Nododd rhai o'r ymatebwyr fod ACLlau penodol eisoes yn lanlwytho'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â chais cynllunio.

6.2 Dyma rai o'r sylwadau am y cynnig:

- Yr angen i sicrhau ei bod yn hawdd i'r cyhoedd weld bod angen rhoi cyhoeddusrwydd ar wefannau i geisiadau am Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol;
- Bod hyn yn golygu y bydd modd bod yn ddi-bapur;
- Yr angen am eglurder o ran sut y mae Safonau'r Gymraeg yn gymwys i ddogfennau o'r fath;
- Yr angen i barhau i roi cyhoeddusrwydd i Ddatganiadau Amgylcheddol mewn papurau newyddion lleol yn ogystal ag ar-lein.


Ymateb

6.3 Mae Cyfarwydddeb 2014 ar Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol wedi gwella'r gofynion ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i geisiadau am Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol. Nid oes bwriad i ddileu'r angen i roi cyhoeddusrwydd i geisiadau o'r fath mewn papur newyddion sy'n cylchredeg yn yr ardal.

6.4 Bydd y Rheoliadau'n cael eu diwygio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau am Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol gael eu cyflwyno'n electronig ac ar bapur. Mae hynny'n caniatáu i'r ACLI gydymffurfio â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth yn electronig, ac mae hefyd yn diwallu unrhyw angen am gopi papur. Os nad oes angen copi papur ar yr ACLI, mae'r Rheoliadau'n darparu y caiff y ddau barti gytuno ar y fformat. Mae'n fwrriad gennym baratoi canllawiau a fydd yn helpu ACLlau i ddeall hyn ac i ddeall hefyd sut y bydd ceisiadau'n cael eu cyhoeddi ar wefannau ac yn unol â'r safonau.

7 Monitro effeithiau sylweddol

C6. A ydych yn cytuno mai'r dull a amlinellir gennym yw'r ffordd fwyaf hyblyg o ddiwallu gofynion Cyfarwyddeb 2014 o ran Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol?



7.1 Roedd mwyafrif y rheini (80%) a ymatebodd i'r cwestiwn o blaid y dull arfaethedig o fonitro effeithiau sylweddol.

7.2 Dyma rai o'r sylwadau a gyflwynwyd:

- Byddai'r ddarpariaeth hon yn golygu y bydd mwy o waith monitro'n cael ei wneud ar ddatblygiadau;
- Pryderon ynghylch sut y byddai'r cynigion ar fonitro yn gweithio'n ymarferol, sef:
 - Ai ar yr ACLI neu'r datblygwr y byddai'r ddyletswydd i fonitro effeithiau datblygu;
 - Os bydd angen cymryd camau i adfer y sefyllfa, ai'r ACLI neu'r datblygwr fyddai'n cymryd y camau hynny;
 - Pryderon y bydd monitro'n cael ei orfodi drwy rwymedigaeth gynllunio o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn hytrach na thrwy amod, ac y byddai costau cyfreithiol, yn ogystal ag oedi posibl, yn gysylltiedig â hynny.

7.3 Nododd yr ymatebwyr y dylai gwaith monitro gynnwys manylion am effeithiolrwydd y camau gweithredu. Dylai hefyd olygu y byddai modd ei gwneud yn ofynnol i gymryd camau pellach er mwyn sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol a ddisgwylid.


Ymateb

7.4 Mae gwaith yn cael ei wneud eisoes i fonitro effeithiau datblygiadau y mae angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer, a derbynnir y gallai'r ddarpariaeth hon arwain at ragor o waith monitro. Wedi dweud hynny, yn unol â'r Gyfarwyddeb, mae'n rhaid i unrhyw fonitro fod yn gymesur â natur, lleoliad a maint y datblygiad. Felly, ni ddylai monitro ychwanegol fod yn feichus.

- 7.5 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r darpariaethau monitro gael eu trosi mewn ffordd mor hyblyg â phosibl er mwyn ystyried mathau gwahanol o ddatblygiad, ac mae wedi drafftio'r Rheoliadau mewn ffordd a fydd yn sicrhau hynny.
- 7.6 Mae sawl ffordd o sicrhau bod datblygiadau'n cael eu monitro ac mae defnyddio amodau a rhwymedigaethau cynllunio pan fo'u hangen yn golygu bod trefniadau monitro'n gallu ymateb i amgylchiadau gwahanol. Er enghraifft, efallai y bydd ACLI yn cytuno i wneud y monitro drwy rwymedigaeth gynllunio. Rydym yn bwriadu paratoi canllawiau a fydd yn annog yr ACLlau i fabwysiadu trefniadau a fydd yn briodol i faint y datblygiad ac i'r math o ddatblygiad, a gall y monitro gynnwys dolenni adborth os bydd angen.

8 Gwrthdaro buddiannau a gwahanu swyddogaethau

C7. A ydych yn cytuno â'n cynigion ar wrthdaro buddiannau a gwahanu swyddogaethau?



- 8.1 Roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn (97%) yn cytuno â'n cynigion ar wrthdaro buddiannau a gwahanu swyddogaethau.
- 8.2 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod gan yr awdurdodau drefniadau digonol eisoes i ymdrin â'r materion hyn. Roedd rhai ohonynt am gael eglurhad, naill ai drwy gyfraith achosion neu ganllawiau, am eiriau ac ymadroddion penodol: ystyr 'gwrthrychol' a rhagor o fanylion am yr hyn yw, ac nad yw, "gwahanu swyddogaethau".


Ymateb

- 8.3 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r darpariaethau ar wahanu swyddogaethau a gwrthdaro buddiannau gael eu trosi mewn ffordd mor hyblyg â phosibl fel y bo modd

ystyried yr amgylchiadau gwahanol lle gall hynny ddogwydd, ac mae wedi drafftio'r Rheoliadau mewn ffordd a fydd yn sicrhau hynny. Mae'n fwriad gennym baratoi canllawiau i egluro'r geiriad.

9 Cosbau a gorfodi


Q8. A ydych yn cytuno â'r ffordd y bwriedir gweithredu mewn perthynas â gwybodaeth ffug neu gamarweiniol a gyflwynir mewn Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol?



- 9.1 Roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn (93%) yn cytuno â'r ffordd y bwriedir gweithredu mewn perthynas â gwybodaeth ffug neu gamarweiniol a gyflwynir mewn Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol.
- 9.2 Teimlai'r rheini a oedd y blaid y cynnig y byddai'n:
- golygu y byddai'r broses yn un fwy proffesiynol;
 - helpu i gael gwared ar unrhyw ragfarn bersonol neu'n atal pobl rhag darparu gwybodaeth ffug.
- 9.3 Roedd ymatebwyr am gael eglurder am y pwyntiau a ganlyn:
- gallu'r ACLlau i droi at y gyfraith droseddol er mwyn dwyn achos a sut y mae hynny'n gorgyffwrdd â'r broses gynllunio (er enghraifft, os gwneir honiad pan fo cais yn cael ei ystyried, a ddylid atal y broses gynllunio nes y profir / gwrthodir yr honiad?).
 - Y corff sy'n gyfrifol am ymchwilio i achosion o dwyll ac am ddwyn achosion o dan Ddeddf Twyll 2006;
 - Os caiff deddfwriaeth wahanol ei defnyddio, yr angen i gynorthwyo ymarferwyr drwy eu cyfeirio'n glir at yr adrannau perthnasol.
- 9.4 Roedd rhai o'r ymatebwyr am weld yr Erthygl hon yn cael ei throsi yn y Rheoliadau trosi yn hytrach na dibynnu ar y gyfraith droseddol.

C9. A ydych yn cytuno y bydd y ffordd yr ydym yn bwriadu mynd ati i orfodi yn

sicrhau cydymffurfiaeth effeithiol â gofynion y Rheoliadau ar Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ac yn gwneud hynny mewn ffordd gymesur a fydd yn cymhell cyrff sy'n rhan o'r broses i gydymffurfio?



9.5 Roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn (74%) yn cytuno â sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i orfodi.

9.6 Nododd y rheini a oedd o blaid:

- Fod ACLlau, ar ôl cyfraith achosion, eisoes yn mynd ati mewn ffordd fwy gofalus i ystyried y gofynion gorfodi sy'n gysylltiedig ag Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol.
- Bod y trefniadau gorfodi presennol yn bodloni gofynion y Gyfarwydddeb ac ni fernir y byddai unrhyw ddrwg mewn gwneud y gofynion hynny'n gwbl glir yn y ddeddfwriaeth.

9.7 Codwyd y pryderon a ganlyn gan y rheini nad oeddent o blaid ein cynigion:

- Mae cyllidebau ACLlau wedi bod o dan bwysau cyson, ac o'r herwydd, dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn ddoeth y maent yn cymryd camau gorfodi. Byddai cyflwyno dyletswydd benodol ychwanegol yn cael effaith andwyol ar eu rôl.
- Mae'r broses o lunio Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn un weinyddol, ac nid yw'r Gyfarwydddeb yn nodi pryd y mae datblygiad yn dderbyniol ac a fyddai cymryd camau gorfodi o dan amgylchiadau penodol yn fuddiol ai peidio.
- Nid yw maint y dirwyon a ganiateir ar hyn o bryd yn atal pobl rhag torri'r rheolau a dylid pennu dirwyon uwch.

9.10 Awgrymwyd mewn un o'r sylwadau cyffredinol y dylid cysylltu'r darpariaethau ar orfodi â'r gofyniad newydd i fonitro datblygiadau y mae angen Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer.

Ymateb

Cosbau

9.11 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau a fydd yn egluro sut y mae achosion troseddol yn gorgyffwrdd â'r broses benderfynu a phwy sy'n cael ymchwilio i faterion a bwrw ymlaen â nhw.

9.12 Nid yw'r gyfraith droseddol yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol cyflwyno darpariaethau sy'n gorgyffwrdd.

Gorfodi

9.13 Mae'r gyfraith achosion sy'n bodoli eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i ACLI gymryd camau gorfodi os yw datblygiad yn un y mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar ei gyfer a bydd y Rheoliadau'n nodi'r ddyletswydd honno'n glir. Bydd angen i ACLlau sicrhau eu bod, o dan amgylchiadau o'r fath, yn neilltuo'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau gorfodi mewn perthynas â datblygiadau y mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer.


9.14 Nid yw'r Rheoliadau'n datgan pryd y mae datblygiad yn dderbyniol. Yr hyn y maent yn ei wneud yw darparu'r fframwaith ar gyfer cymryd camau gorfodi mewn perthynas â datblygiadau y mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer. Mater i'r awdurdod perthnasol, ar ôl ystyried yr wybodaeth amgylcheddol, yw penderfynu a yw datblygiad yn dderbyniol ai peidio.

9.15 Mae Llywodraeth Cymru dal wrthi'n ystyried y dirwyon a fydd yn cael eu rhoi pan dorri'r rheolau cynllunio.

9.16 Mae'r system bresennol yn caniatáu i'r ACLI gymryd camau gorfodi pan na fydd y gwaith monitro y cytunwyd arno wedi'i wneud.

10 Arbenigwyr cymwys

C10. A ydych yn cytuno mai'n cynigion ar arbenigwyr cymwys yw'r ffordd fwyaf hyblyg o fodloni gofynion y Gyfarwydddeb?



10.10 Roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn (86%) yn cytuno mai'n cynigion ar arbenigwyr cymwys yw'r ffordd fwyaf hyblyg o fodloni gofynion y Gyfarwydddeb.

10.11 Dyma sylwadau'r rheini a oedd o blaid y cynigion:

- Mae'r hyn a awgrymir yn cadw'r hyblygrwydd sydd ei angen er mwyn darparu ar gyfer amrywiaeth eang o gynigion datblygu y gallai fod angen Asesiadau o'r Effaith

Amgylcheddol ar eu cyfer. Mae hefyd yn caniatáu digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer yr amrywiaeth eang o bynciau y gellir eu cynnwys mewn Datganiad Amgylcheddol;

- Byddai unrhyw fath o achredu yn rhy feichus a gallai ymyrryd â'r farchnad a llesteirio cystadleuaeth;
- Mae'n bosibl y byddai barn yr Awdurdod yn cael ei herio;
- Byddai ymatebwyr yn bryderus pe bai'n ofynnol i'r awdurdod cymwys ddefnyddio arbenigwyr â chymhwyster neu arbenigedd penodol, oherwydd y byddai hynny'n feichus;
- Mae'n bosibl y bydd costau a chyfrifoldebau ychwanegol os bydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori yn golygu y bydd rhwymedigaeth ar yr awdurdod cynllunio lleol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo sefydlu system achredu a mynd ati'n rheolaidd i baratoi rhestr fwy diweddar o arbenigwyr cymwys.

10.12 Dyma sylwadau'r rheini nad oeddent yn cytuno â'r cynigion:

- Dylid diffinio'r term arbenigwr cymwys gan ddefnyddio meini prawf gwrthrychol yn hytrach na derbyn barn yr awdurdod cymwys. Gofynnwyd hefyd a fyddai gwneud hynny yn cyd-fynd â bwriad y Gyfarwyddeb ddiwygiedig.
- A oes gan yr "awdurdod cymwys" y gallu a'r adnoddau i ddyfarnu a yw rhywun yn "gymwys" ai peidio a pha feini prawf byddent yn eu defnyddio?
- Os yw'r meini prawf a bennir o ran cymhwysedd yn cael eu defnyddio yn achos datblygwr, rhaid eu defnyddio hefyd yn union yr un modd ar gyfer yr awdurdod sy'n penderfynu ar gais.

Ymateb

Arbenigwr cymwys ym marn yr ACLI

10.13 Bydd y Rheoliadau'n rhagnodi bod yn rhaid i'r Datganiad Amgylcheddol gael ei baratoi gan bersonau sydd, ym marn yr awdurdod perthnasol, â digon o arbenigedd i sicrhau ansawdd y datganiad a'i fod hefyd yn gyflawn. Mae angen i'r Rheoliadau bennu gofynion clir a thryloyw o ran y ddyletswydd ar y datblygwr i ddefnyddio arbenigwr cymwys. Gellid diffinio'r term arbenigwr cymwys drwy gyfeirio at ffeithiau, e.e. cymwysterau penodol y mae'n rhaid i unigolyn feddu arnynt er mwyn bod yn arbenigwr cymwys. Byddai hynny'n dangos yn glir a yw unigolyn yn bodloni'r disgrifiad a bod datblygwr yn cydymffurfio â'r gofynion. Neu, gall y Rheoliadau rhagnodi y gellir penderfynu a yw unigolyn yn arbenigwr cymwys ai peidio drwy gyfeirio at nodwedd arall, e.e. barn unigolyn arall. Ym marn Llywodraeth Cymru, nid yw diffinio arbenigwr cymwys drwy gyfeirio'n benodol at ffeithiau neu gymwysterau yn rhoi'r hyblygrwydd i'r datblygwr o ran pwy sy'n paratoi'r Datganiad Amgylcheddol (er enghraifft, gall safonau cymwysterau newid, efallai nad yw pobl yn aelodau o gyrff proffesiynol, neu y gall fod gwrthdaro â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau/y Gyfarwyddeb Safonau Technegol).


10.14 Er mwyn cynorthwyo'r awdurdod cymwys, bydd yn ofynnol o dan y Rheoliadau i'r datblygwr nodi sut y bydd wedi bodloni'r gofyniad sy'n ymwneud ag arbenigwr cymwys. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar y gofynion sy'n ymwneud ag arbenigwr cymwys. Nid oes angen i ACLlau sefydlu system achredu leol i asesu a yw unigolyn yn gymwys ai peidio.

Yr hyn sy'n ofynnol gan yr awdurdod cymwys o ran arbenigedd

10.15 Mae'n ofynnol o dan y Gyfarwydddeb fod gan yr awdurdod cymwys ddigon o arbenigedd, neu fod yr arbenigedd ar gael iddo yn ôl yr angen, i archwilio'r Datganiad Amgylcheddol. Nid yw'r gofyniad hwn mor hanfodol â'r gofyniad sydd ar y datblygwr i sicrhau bod y Datganiad Amgylcheddol yn cael ei baratoi gan arbenigwr cymwys. Bydd y gofyniad hwn yn y Rheoliadau. Bydd angen i ACLlau sicrhau bod y rheini a fydd yn asesu'r Datganiad Amgylcheddol yn bodloni'r gofyniad hwnnw. Er mwyn ei gynorthwyo yn hyn o beth, bydd yr ACLI yn gallu manteisio hefyd ar sylwadau timau eraill yn yr awdurdod ac ar sylwadau'r ymgynghoreion statudol.

11 Hysbysiadau prynu o dan adran 141 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref

C11. Oes gennych unrhyw sylwadau am ddefnyddio gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael gweld Datganiad Amgylcheddol yr ymgynghorir yn ei gylch ac a gaiff ei ystyried cyn rhoi caniatâd o dan adran 141 ar gyfer datblygiadau y mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer?



11.10 O blith y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn, cyflwynodd lleiafrif (23%) sylwadau am ddefnyddio gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael gweld Datganiad Amgylcheddol yr ymgynghorir yn ei gylch ac a gaiff ei ystyried cyn rhoi caniatâd o dan adran 141 ar gyfer datblygiadau y mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer.

11.11 Nid oedd y rheini a gyflwynodd sylwadau yn anghytuno â'r cynnig. Nodwyd bod y cynnig yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau clir a thryloyw, ei fod yn cau bylchau posibl yn y system ac yn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn yr un modd.

Ymateb

11.12 Bydd y Rheoliadau'n cyflwyno gweithdrefn ar gyfer datblygiadau o dan adran 141 y mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer.

12 Cwestiynau Cyffredinol

C12.	Oes gennych unrhyw sylwadau neu a ydych am godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol?
-------------	--

12.10 Ceir crynodeb isod o'r sylwadau a'r materion allweddol a godwyd:

- Cafwyd sawl cais i Lywodraeth Cymru egluro elfennau penodol o'r Gyfarwyddeb, sef:
 - Dim ond wrth asesu'r Datganiad Amgylcheddol y mae'r gofyniad o ran 'arbenigwr cymwys' yn berthnasol. Nid yw'n berthnasol i sgrinio/gwmpasu.
 - Pryd y mae'r cyfnod 30 diwrnod o ymgynghori â'r cyhoedd yn dechrau.
 - Beth yw'r gofynion sylfaenol y byddai angen eu bodloni yn achos gwrthdaro buddiannau a gwahanu swyddogaethau.
 - Dylid darparu templedi ar gyfer llythyrau / opsiynau sgrinio etc. er mwyn sicrhau cysondeb yn ystod y broses ac wrth ymateb.
 - Pwnc newydd iechyd pobl, gan gynnwys iechyd meddwl, a sut y bydd yn cael ei asesu.
 - Arweiniad ar yr hyn a olygir wrth 'asesiadau perthnasol eraill'.
- Gofynnwyd am newidiadau rheoleiddiol, sef:
 - Estyn yr amser a ganiateir ar gyfer ymatebion (30 diwrnod) i bawb yr ymgynghorir â nhw am unrhyw gais ac nid dim ond y cyhoedd.
 - Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid diweddarau'r Rheoliadau drwy wneud copïau papur a chopïau electronig yn ofynnol. Mae hynny'n groes i Gyfarwyddeb 2014 ar Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ac yn groes i safbwynt Llywodraeth Cymru o ran y gallu i gyflwyno 100% o geisiadau cynllunio yn electronig.
 - Eglurhad am esemptio prosiectau rhag gofynion y Gyfarwyddeb os eu hunig ddiben yw amddiffyn y wlad.
 - Roedd argymhellion eraill mewn perthynas â'r Rheoliadau hefyd, gan gynnwys, diffinio 'ymgyngoreion', 'ardaloedd sensitif' a'r wybodaeth i'w darparu gan y datblygwr am y prosiectau a restrir yn Atodiad II.

Ymateb

Canllawiau

12.11 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau er mwyn helpu i egluro'r meysydd hyn.

Newid rheoleiddiol

12.12 Bydd y Rheoliadau'n darparu y bydd yn rhaid i ACLI beidio â phenderfynu ar gais tan i 30 diwrnod fynd heibio ers i'r Datganiad Amgylcheddol ddod i law'r ymgynghorai.

12.13 Mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i ymgeisydd gyflwyno'r Datganiad Amgylcheddol yn electronig ac ar bapur oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig.

12.14 Nid yw amddiffyn yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Bydd yr esemptiadau ar gyfer prosiectau sydd at ddibenion amddiffyn yn unig yn y Rheoliadau ar gyfer Lloegr.

12.15 Bernir bod y diffiniad presennol o ardal sensitif yn un priodol. Mae ardaloedd eraill sydd â dynodiadau bywyd gwyllt yn rhan bwysig o'r broses sy'n gysylltiedig ag Asesu'r Effaith Amgylcheddol. Er enghraifft, o dan y meini prawf dethol ar gyfer sgrinio datblygiadau Atodlen 2, mae'n ofynnol i'r awdurdod cymwys ystyried sensitifrwydd amgylcheddol ardaloedd daearyddol y mae datblygu'n debygol o effeithio arnynt, gan roi ystyriaeth benodol i ...safleoedd Ewropeaidd ac ardaloedd eraill sy'n cael eu categoreiddio neu eu gwarchod o dan ddeddfwriaeth genedlaethol.

C.13	Oes gennych unrhyw sylwadau am yr Asesiad rhannol drafft o Effaith Reoleiddiol?
-------------	--

12.16 Ceir crynodeb isod o'r materion allweddol a godwyd a'r sylwadau allweddol a wnaed am yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

- Rhybuddir na ddylid defnyddio costau generig yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- Wrth ddefnyddio'r broses sgrinio i benderfynu a yw datblygiad yn un y mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar ei gyfer ai peidio, dylid annog unrhyw newidiadau a allai sicrhau bod y datblygwr yn darparu gwybodaeth ychwanegol (gan gynnwys mesurau lliniaru) sy'n caniatáu i'r ACLI wneud penderfyniad mwy cytbwys. Croesewir y ffaith y gallai fod llai o gynigion y bydd angen Datganiad Amgylcheddol ar eu cyfer ac mae croeso hefyd i'r arbedion a fyddai'n gysylltiedig â hynny.
- Bydd y cynigion yn cael effaith sylweddol ar adnoddau ar adeg pan fo angen i ACLlau fod yn ddarvoudus wrth eu defnyddio er mwyn bod mor effeithlon â phosibl wrth awgrymu tir i'w ddatblygu – yn enwedig ar gyfer tai a datblygu economaidd gwledig yng Nghymru.
- Nodwyd hefyd y gallai'r darpariaethau arfaethedig hyn gael effaith andwyol ar ddatblygwyr ac ar ddatblygu economaidd, yn yr ystyr bod datblygwyr economaidd ar raddfa fach yng nghefn gwlad yn debygol o feddwl ddwywaith cyn cyflyno cynigion datblygu oherwydd bod Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael effaith anghymesur arnynt o ran costau uwch.
- Mae perygl y gorfodir y system i fod yn fwy biwrocraidaidd ac yn llai hyblyg.

Ymateb

12.17 Asesiad drafft rhannol o'r Effaith Rheoleiddiol oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ar gyfer yr ymgynghoriad. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau terfynol yn asesu'r holl gynigion y byddwn yn bwrw ymlaen â nhw.

Y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Busnesau/Ymgynghorwyr Innogy Renewables UK Limited CEMEX UK Materials Ltd Barton Wilmore RWE Generation UK plc Persimmon Homes Gorllewin Cymru LDA Design Redrow Homes Limited	Asiantaethau'r Llywodraeth/Cyrff Eraill yn y Sector Cyhoeddus Y Weinyddiaeth Amddiffyn Iechyd Cyhoeddus Cymru Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Cyfoeth Naturiol Cymru Yr Awdurdod Glo
Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Ynys Môn Dinas a Sir Caerdydd Parciau Cenedlaethol Cymru Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir y Fflint Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Dinas Casnewydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Gwynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant Envirowatch Cymdeithas y Cyfreithwyr Prifysgol Bolton RSPB Y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi Y Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol RTPI Cymru
Y Sector Gwirfoddol Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Eraill Glandŵr Cymru Dŵr Hafren Trent CLA Cymru Unigolyn preifat Unigolyn preifat Unigolyn preifat Unigolyn preifat